



Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0398/24

Hannah Blythyn AS
Cadeirydd
Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Ionawr 2025

Annwyl Hannah

Diolch am eich llythyr, ac am y cyfle i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn cysylltiad â'ch ymchwiliad i atebolrwydd Aelodau unigol. Byddaf yn ymateb i'ch ceisiadau am wybodaeth ychwanegol yn eu tro.

Pa waith paratoi y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed yn y Senedd.

Yn dilyn ymrwymiad y Llywodraeth i wahodd y Pwyllgor i wneud cynigion mewn cysylltiad â datganiadau twyllodrus, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio drwy oblygiadau polisi a chyfreithiol y tri opsiwn a nodwyd gan y Pwyllgor yn yr ymgynghoriad – trosedd yn dod gerbron y llysoedd troseddol, trosedd sifil wedi'i dyfarnu drwy broses farnwrol annibynnol, neu gryfhau'r Cod Ymddygiad a'r gweithdrefnau safonau presennol.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio drwy'r materion manwl ac wedi gallu pennu cwmipas cychwynnol y penderfyniadau polisi y bydd eu hangen. Felly, byddaf mewn sefyllfa i ddechrau gwneud y penderfyniadau hynny unwaith y bydd argymhellion y Pwyllgor yn hysbys ac y gellir eu hystyried yn briodol.

Ystyried y weithdrefn a'r prosesau ar gyfer gweithredu ei hymrwymiad ac asesu unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gapasiti.

Fel sy'n wir wrth ddatblygu holl ddeddfwriaeth y Llywodraeth, mae gwaith datblygu polisi'n cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith dadansoddi manwl gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, er mwyn bod yn barod i gyfarwyddo ein drafftwy'r deddfwriaethol. Mae elfennau o'r capasiti polisi a chyfreithiol a ddefnyddiwyd yn flaenorol wrth ddatblygu a chyflwyno Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi cael eu cadw at y diben hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn cyflawni ein hymrwymiaadau, rydym yn ceisio gwneud cynnydd yn gyflym. Gall hyn olygu y bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch y cydbwysedd priodol rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, a'r hyn y gellir darparu ar ei gyfer mewn is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, mae arwyddocâd cyfansoddiadol unrhyw gynigion deddfwriaethol yn y maes hwn yn golygu ei bod yn hanfodol eu bod yn destun craffu ac ystyriaeth briodol gan y Senedd.

Pa amserlen y byddai ei hangen yn eich barn chi i ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth fel hyn. Efallai y gallech gynorthwyo'r Pwyllgor ar y pwynt hwn gyda'r amser a gymerwyd ar unrhyw ddeddfwriaeth gymaradwy.

Fel y dywedais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn cadw slot ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ym mhumed flwyddyn ein rhaglen ddeddfwriaethol.

Fodd bynnag, ni ddylid tanddatgan yr amserlenni heriol, ac mae'n hanfodol bod pob rhan o'r broses yn gallu symud ymlaen yn gyflym. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i ddatblygu deddfwriaeth yn iawn mewn maes sydd â chynsail cyfyngedig a sicrhau bod gan y Senedd yr amser angenrheidiol i graffu ar y ddeddfwriaeth honno a'i gwella.

Sgyrsiau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU am effeithiau posibl ar y system gyfiawnder a pha ymateb a gafwyd, os o gwbl.

Rwy'n ymwybodol bod ymchwiliad y Pwyllgor hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, ac rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r angen i beidio â thorri ar draws canlyniad yr ymgysylltiad hwnnw, nac i achub y blaen arno.

O ran yr effaith bosibl ar y system gyfiawnder, rwyf hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi casglu tystiolaeth gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chymdeithas y Bar Troseddol, yn ogystal â chael tystiolaeth ysgrifenedig gan [Lywydd] Panel Dyfarnu Cymru, a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Wrth i'r safbwyntiau polisi manwl gael eu datblygu, a lle bo hynny'n briodol, byddwn wrth gwrs yn sicrhau bod ystyriaeth o safbwyntiau ac arbenigedd rhanddeiliaid allweddol yn rhan annatod o'r broses honno.

Defnyddir y broses o Asesu'r Effaith ar Gyfiawnder wrth ddatblygu'r holl ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y system gyfiawnder, ac mae'r broses honno'n cynnwys ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder pan fydd y model polisi arfaethedig wedi'i ddiffinio'n ddigonol. Bydd yr asesiad yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw Fil.

Eich asesiad o'r risg y byddai cwynion blinderus neu faleisus yn cael eu gwneud pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno.

Mae'n bwysig bod unrhyw system yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu ar gyfer model effeithiol ar gyfer atebolrwydd Aelodau, a pheidio â chaniatáu i'r system gael ei defnyddio i atal trafodaeth gyfreithlon, ac rwy'n croesawu barn y Pwyllgor ynghylch lle dylai'r cydbwysedd hwnnw fod. Fel rhan o'r gwaith polisi a nodir uchod, mae fy swyddogion wedi bod yn ystyried sut y caiff y paramedrau ar gyfer y camymddwyn eu llunio, yn ogystal ag i ba raddau y dylai mecanwaith i hidlo cwynion fod yn rhan o'r system, er mwyn sicrhau mai dim ond yr achosion mwyaf difrifol o dwyll sy'n cael eu cofnodi. Yn ogystal, lle byddai amddiffyniadau braint seneddol ehangach wedi'u rhoi i Aelodau o'r Senedd, byddai angen ystyried y rhyngweithio rhwng unrhyw ddeddfwriaeth ar ddatganiadau twyllodrus a'r amddiffyniadau hynny yn ofalus.

I gloi, rwy'n cytuno'n llwyr â'ch asesiad y "gall y broses o ddeddfu ar gyfer dichell fwriadol fod yn gymhleth". Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio drwy'r cymhlethdodau hynny, ac felly rwy'n edrych ymlaen at argymhellion y Pwyllgor ar rinweddau cyflwyno mecanweithiau pellach, sy'n seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth yr ydych wedi'i chasglu.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping loops and strokes, characteristic of a cursive or semi-cursive style.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs